**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022 trwy Zoom**

**PRESENNOL**

<u>Yn Cynrychioli'r Cyflogwr:</u>
Y Cyng. John B Hughes
Y Cyng. Bryan Apsley
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc

<u>Yn Cynrychioli'r Gweithwyr:</u>
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân – Prospect, yn Cynrychioli'r Gweithwyr (Cadeirydd)
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân

<u>Yn Cynghori</u>
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Rebecca Marfleet, Swyddog Pensiynau

<u>Yn Cofnodi</u>
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gareth Owens, Clerc Monitro, Duncan Stewart-Ball, Undeb y Brigadau Tân a Stuart Stanley, Undeb y Brigadau Tân.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2022 fel cofnod gwir a chywir.

**4. ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH CYNLLUN**

4.1 Cyflwynodd Rebecca Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd â'r nod o roi diweddariad i'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.3 Rhoddwyd diweddariad ar yr ymarfer ail-gofrestru awtomatig diweddar, sy'n ofyniad statudol. Nodwyd bod y mwyafrif helaeth o ddiffoddwyr tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn rhan o'r cynllun pensiwn, gan gynnwys y rhai a gyflogwyd fel diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser (RDS) a hon yn gyflogaeth eilradd iddynt. Teimlwyd ei bod yn hollbwysig bod diffoddwyr tân y system RDS yn cael eu hysbysu'n llawn o'u hawl i gael mynediad i gynllun pensiwn y Gwasanaeth a'r buddion a ddaw yn sgil hyn.

4.4 Eglurwyd bod ymrestru awtomatig i gynllun pensiwn yn rhwymedigaeth ar y Gwasanaeth ac y byddai angen i staff ddewis peidio ag ymuno petaent yn dymuno peidio bod yn rhan o'r cynllun.

4.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r adroddiad.**

**5. ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

5.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad gweinyddu pensiynau'r Gwasanaeth – Hydref 2022, a oedd â'r nod o roi diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau sy'n cael eu cyflawni ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth ar faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

5.2 Roedd yn werth nodi bod yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â phensiynau bellach ar gael yn electronig a bod modd cael gafael arni ar-lein. Roedd y Gwasanaeth yn bwriadu parhau i hyrwyddo'r cyfleuster hwn dros y chwe mis nesaf er mwyn galluogi staff i wneud defnydd llawn ohono.

5.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL**

6.1 Y PSTC MacArthur a gyflwynodd yr adroddiad hwn, a oedd wedi'i ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol (LPB) ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.2 Roedd dau brif fater yr oedd y Gwasanaeth yn delio â nhw ar hyn o bryd: dyfarniad O'Brien a Gwahaniaethu ar sail Oed McCloud.

6.3 Mae aelodau staff sydd wedi cyflwyno bwriad i ymddeol bellach yn gallu gofyn am ddau broffil ymddeol, ac roedd paratoi'r rhain yn

broses eithaf llafurus gan ei bod yn ofynnol cyfrifo buddion etifeddol â llaw.

6.4 Mae offeryn ar-lein wedi'i ddatblygu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth a fydd yn galluogi aelodau pensiwn i ragamcanu gwerth eu pensiwn, a'r gobaith oedd y byddai hwn yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2023.

6.5 Nodwyd mai dyfarniad O'Brien oedd fwyaf perthnasol i'r staff RDS a gyflogir gan y Gwasanaeth, er na fydd y manylion llawn yn hysbys hyd nes y bydd y rheoliadau wedi'u cyhoeddi. Mae cyfres o glinigau pensiwn wedi'u cynnal, er bod y nifer sy'n manteisio arnynt wedi bod yn isel iawn. Bydd sesiynau pellach yn cael eu cynllunio a gwnaed cais i'r cyrff cynrychioli gweithwyr ddarparu gwybodaeth am feysydd i'w cwmpasu.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r materion cyfreithiol parhaus sy'n berthnasol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r statws presennol;**

**(ii) nodi'r nifer isel sy'n manteisio ar sesiynau diweddaru pensiynau i gefnogi staff mewn perthynas â dyfarniad O'Brien, gan gynnwys cytundeb i ddarparu sesiynau pellach; a**

**(iii) nodi effaith bosibl y ddwy her gyfreithiol ar y prisiad actiwaraidd sydd i ddod.**

## 7. COFRESTR RISG

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau rheoli risg, a chyfeiriodd yr Aelodau at yr atodiad yng nghefn yr adroddiad.

7.2 Nodwyd bod CLG yn ei le gyda Chronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn cael ei adolygu bob pedair i bum mlynedd.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

## 8. HYFFORDDIANT

8.1 Dangoswyd cyflwyniad ar y sgrin er mwyn trafod hanfodion hyfforddi: gwybodaeth a dealltwriaeth o rwymedigaethau aelodau Byrddau Partneriaeth Lleol; trosolwg o Becyn Cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR); y Cod Ymarfer 14; a chyfeiriadedd cynllun lleol.

8.2 Bellach byddai dull strwythuredig o hyfforddi pob aelod yn cael ei roi ar waith a byddai'n ofynnol i: Aelodau gwblhau Pecyn Cymorth TPR i roi gwybodaeth graidd ynghylch y gyfraith; adroddiadau i Aelodau gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion penodol; hyfforddiant gael ei ddarparu ym mhob cyfarfod yn cwmpasu meysydd allweddol a nodwyd; a byddai anghenion hyfforddi yn cael eu dosbarthu.

8.3 Cytunwyd, pan fyddai'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn cael ei anfon at yr Aelodau, y byddai rhestr o'r meysydd hyfforddiant y gellid eu trafod yn cael ei chynnwys. Roedd hefyd yn ofynnol i bob Aelod gwblhau modiwlau hyfforddi ar-lein y Rheoleiddiwr Pensiynau.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) y byddai'r sleidiau hyn yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau maes o law;**

**ii) y dylai holl Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Lleol gwblhau Pecyn Cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau (dolen i'w dosbarthu gyda'r sleidiau); ac**

**iii) y dylai Aelodau gwblhau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi i'w ddosbarthu gyda'r sleidiau.**

## 9. BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad Bwrdd Cynghori'r Cynllun, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a drafodwyd ym Mwrdd Cynghori Cynllun (Cymru).

9.2 Nodwyd bod dwy her gyfreithiol genedlaethol a fyddai'n effeithio ar Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân; dyfarniad McCloud a dyfarniad O'Brien. Bydd diweddariadau ynghylch y rhain yn cael eu rhoi i aelodau ym mhob cyfarfod.

9.3 Y gobaith oedd y byddai'r broses brisio wedi'i chwblhau erbyn mis Ebrill 2023 ond nid yw hyn yn bosibl bellach. Y bwriad felly yw i hyn ddod i ben erbyn mis Ebrill 2024.

9.4 Cadarnhawyd y byddai cyfarfod nesaf Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn cael ei gynnal ar 30 Ionawr 2023.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cylch gorchwyl Bwrdd Cynghori'r Cynllun (Cymru); a**

**(ii) nodi'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod diweddaraf ar 22 Gorffennaf 2022.**

## 10. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

10.1 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw faterion at yr Awdurdod.

## 11. UNRHYW FUSNES ARALL

11.1 Cytunwyd nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12.1 Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 19 Ionawr, 2023 a bydd yn ddigwyddiad hyfforddi.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50